**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 29 MEDI 2025**

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 3 GYNT) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 29 MEDI 2025 AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| O Clatworthy | GC Haines |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | N Clarke | RJ Collins | C Davies |
| C L C Davies | W J Kendall | J E Pratt | I Williams |
| MJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
G Walter a T Wood

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai |
| | |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Y Cymunedau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol |
| Ryan Jones | Rheolwr Comisiynu Tai Strategol |
| Lisa Jones | Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltiad Rhanbarthol |
| | |
| Joanne Norman | Rheolwr Grŵp Dros Dro – Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb |
| Samantha Ready | Cyfrifydd Prosiect |
| Robert Frowen | Rheolwr y Tîm Datblygu Economaidd |
| Joanne Ginn | Arweinydd y Tîm Datrysiadau Tai |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiannau

H Bennett – Personol – Eitem 4 – Y cyflogwr yn derbyn arian Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig (UKSPF) ac eitem 7- Aelod o Gyngor Tref a Chymuned.
J Pratt – Personol – Eitem 4 – Aelod Etholedig o Gyngor Tref Porthcawl.
M Williams – Personol – Eitem 4 – Aelod Etholedig o Gyngor Cymuned Coety Uchaf.
I Williams – Personol – Eitem 4 – Aelod Etholedig o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn rhan o gyrff sy'n derbyn arian UKSPF.
W Kendall – Personol – Eitem 4 – Aelod Etholedig o Gyngor Cymuned Bracla
N Farr – Personol – Eitem 4 – Aelod Etholedig o Gyngor Tref Porthcawl.

**110. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai dyddiedig 14 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

111. **Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol ynghyd â cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhelliad:**<br><br>1. Bu'r aelodau'n trafod dull y Cyngor a nodir yn y Cynllun Buddsoddi Lleol, o ymdrin â Chronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig (UKSPF), oedd wedi pwysleisio tair thema - Cymunedau a Lle, Cefnogi Busnesau Lleol, a Phobl a Sgiliau. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o brosiectau gwahanol ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi cael eu hariannu, mynegwyd hefyd nad oedd llinyn arweiniol yn y dull, na disgrifiad clir a thryloyw o'r modd y cafodd prosiectau eu blaenoriaethu na'r ffordd yr oedd eu llwyddiant a'u gwerth yn cael ei fesur. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r dull o ariannu |

| | |
|---|---|
| | prosiectau olynydd UKSPF yn y dyfodol nodi'r canlynol yn rhagweithiol ac yn eglur:<br><br>a. Y nodau strategol arweiniol.<br>b. Penderfynu beth yw pwrpas y prosiect a beth y dylai ei gyflawni.<br>c. Yr amcanion, y targedau a'r allbynnau y cytunwyd arnynt.<br>d. Y meini prawf ar gyfer dyfarnu grantiau.<br>e. Y mesuriadau llwyddiant a gwerth oedd i gael eu monitro.<br>f. Y dull o gynllunio wrth gefn.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am adroddiad monitro terfynol UKSPF, gan gynnwys dadansoddiad cyflawn o'r llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, i'r Pwyllgor gael ei ystyried cyn gynted â phosibl ac i gynnwys:<br><br>a. manylion sut y cafodd y cyhoedd, busnesau a chyrff cymunedol eu hysbysu a'u cynorthwyo i wneud defnydd llawn o'r cyllid oedd ar gael, gan gynnwys sut y gwnaeth Fframwaith Cydgynhyrchu Ffyniant Sir Pen-y-bont ar Ogwr sicrhau proses wybodus o wneud penderfyniadau ynghylch Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig;<br>b. gwybodaeth fanwl ynghylch yr astudiaethau dichonoldeb a gyllidwyd drwy'r UKSPF a faint ohonynt sydd wedi dod neu'n mynd i ddod yn brosiectau hyfyw;<br>c. gwerthusiad manwl o gynaladwyedd swyddi a grëwyd ar draws y tair thema o ganlyniad i gyllid Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y prosesau monitro a'r gefnogaeth a gynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr; a<br>d. gwybodaeth fanwl am yr effaith a gafodd y toriad mewn cyllid yn ystod y flwyddyn bontio ar brosiectau yn y gymuned.<br><br>3. Nododd y Pwyllgor fod diffyg eglurder ynghylch sut beth fyddai olynydd UKSPF a sut y byddai'n gweithio a **gofynnodd**, unwaith y byddai hyn yn hysbys, y câi'r Aelodau dderbyn gwybodaeth amdano, gan gynnwys manylion y cynigion ar gyfer ymgysylltu â chymunedau drwy strwythurau partneriaeth y Cyngor ynghylch y meini prawf i wneud cais am gyllid.<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y cymorth y gellid ei ddarparu i sefydliadau i wneud cais am ffynonellau cyllid eraill, unwaith y byddai cyllid UKSPF wedi dod i ben.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddosbarthu i'r Aelodau adroddiadau blaenorol ynglŷn â UKSPF a ystyriwyd gan bwyllgorau craffu. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

## 112. Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o’r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol ynghyd â cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhelliad:**<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod oddeutu 3,300 o bobl ar y gofrestr tai a bod angen taer i fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth sylfaenol yn y Fwrdeistref Sirol rhwng y galw am dai a'r cyflenwad o dai oedd ar gael, yn enwedig tai cymdeithasol. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor:<br><br>a. Bod Cyfarwyddiaeth y Cymunedau’n ymchwilio’n fanwl, ac yn ystyried syniadau posibl i fynd i’r afael â’r diffyg yn y cyflenwad tai; a<br>b. Bod y Strategaeth a’r Cynlluniau Gweithredu yn cael eu diweddaru gan nodi’r camau oedd yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r sefyllfa hon ar frys.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddarparu sesiwn Friffio i'r Holl Aelodau ynghylch y Polisi diwygiedig o Ddyrannu Tai Cymdeithasol a sut y bydd yn newid, yn enwedig o ran y bandiau a sut y caiff tai eu dyrannu.<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol ynghylch effaith Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru ar y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol drafft.<br><br>7. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol ynghylch y prosesau adolygu statudol ac anstatudol, gan gynnwys y nifer, y canlyniadau, a'r camau oedd yn cael eu cymryd i sicrhau tegwch a chysondeb wrth gymhwyso’r polisi. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

## 113. Adroddiad Gwybodaeth - Chwarter 4 / Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad Gwybodaeth am adroddiad Chwarter 4 / Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2024-25, y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 4 – Diwedd Blwyddyn 2024-25 a'r Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 4 2024-25 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac roeddent yn cadw'r dangosfwrdd a'r traciwr mewn golwg wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

## 114. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y ceisiadau canlynol, yn nodi Taflen Weithredu Monitro'r Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth:<br><br>a. Yr Adroddiad Monitro Terfynol ar Gronfa Ffyniant a Rennir y DU (UKSPF) i gynnwys y wybodaeth yng Nghais 2 uchod.<br><br>b. Digartrefedd a Thai i gynnwys:<br>Pobl sy'n ymgyflwyno fel pobl ddigartref neu'n bosibl o ddod yn ddigartref, y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol i sicrhau llety addas ar eu cyfer, y cynlluniau strategol i fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad tai a'r galw am dai, yn enwedig tai cymdeithasol.<br><br>c. Gwaith stryd / Cyfleustodau i gynnwys: taliadau a dadansoddiad o'r cyfleustodau a'r perfformiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

## 115. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Medi 2025 |

I wylio rhagor o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:44.